# Esgidiau Coch Senita

HAEN 2





©ESIS, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Cardiff, CF15 7QQ
Tel: 01443 827500    Fax: 01443 827599
E-mail: esis@esis.org.uk  Website: www.esis.org.uk

First Published by ESIS 2007

Author: Nia Einir Williams
Design & Illustrations: Icon Creative Design
Printer: Westdale Press, Cardiff

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or any means, electronic, mechanical, photocopying, recording otherwise, without the prior consent of the copyright owner.


Canolfan Mileniwn Cymru, Caerdydd
Haf ydw i.'Dw i'n hapus heno. Mae disgo y tylwyth teg yn y Ganolfan.
Mae hi'n hanner nos yng Nghanolfan Mileniwn Cymru, Caerdydd...


Brysia, Brigyn.Beth wyt ti’n wisgo i’r disgo?
12 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11
‘Dw i’n gwisgo trowsus coch a chrys t pinc i’r disgo.
Mae’n amser mynd i’r disgo.
Mae Brigyn yn hwyr.


Helo! Cai ydw i. 'Dw i'n gwisgo dillad newydd. 'Dw i'n gwisgo trowsus brown, crys gwyrdd ac esgidiau glas i fynd i'r disgo.


Noswaith dda, Haf.
Beth wyt ti'n wisgo i'r disgo?
Wn i ddim.
Dyma Deilen y dylwythen deg.
Mae Deilen yn gwisgo ffrog hir las.
Mae Deilen yn barod i fynd i'r disgo.




Dydy Senita ddim yn gwisgo esgidiau.




Mae pawb yn y grŵp yn gwisgo trowsus gwyrdd, siwmperi coch, capiau glas a bŵts pinc.




Mae Haf yn edrych yn bert.
Mae hi'n gwisgo ffrog ac esgidiau du.


‘Dw i wedi blino dawnsio.
Mae traed tost ‘da fi.
Mae’r esgidiau’n rhy fach.


Senita, deffrwch! Derwen ydw i. Brysiwch! Brysiwch! Rhaid mynd - mae Huw Parry y gofalwr yn dod
Ble mae pawb? Does neb yma. Mae pawb wedi mynd.


Beth sy' ar y llawr?
Esgidiau. Esgidiau bach coch.
Esgidiau bach coch pwy?
Ust!